**TGAU**

3660N20-1

**Dyddiad rhyddhau: 1 Medi 2021**

# CERDDORIAETH – Uned 2
## Cyfansoddi

**Briff Cyfansoddi i'w gyflwyno yn 2022**

**DIM OND AR GAEL I YMGEISWYR SYDD WEDI'U COFRESTRU AR GYFER CYMHWYSTER CBAC, WEDI'I GYMERADWYO GAN CYMWYSTERAU CYMRU. NID YW AR GAEL I GANOLFANNAU YN LLOEGR.**

**Ar gyfer cyflwyno yn 2022, mae'r defnydd o'r briffiau cyfansoddi yn ddewisol.**

### GWYBODAETH A CHYNGOR I YMGEISWYR

Gallwch chi gyfansoddi ar gyfer unrhyw gyfuniad priodol o offerynnau/lleisiau, oni nodir yn wahanol yn y briff.

Fe'ch cynghorir chi i gyfansoddi darn **2–3 munud** o hyd er mwyn bodloni gofynion y meini prawf asesu ar gyfer datblygu syniadau.

Rhaid i'ch athro fonitro'r cyfansoddiad dair gwaith yn ystod y broses gyfansoddi fel rhan o'r broses ddilysu.

Rhaid i chi gwblhau a llofnodi log cyfansoddi gan roi manylion am y broses gyfansoddi.

Rhaid i chi ysgrifennu gwerthusiad o'r cyfansoddiad.

Ar ôl i'r cyfansoddiad gael ei gyflwyno a'i asesu gan eich athro, nid oes hawl gennych i ychwanegu at y darn na'i addasu.

### CYDNABYDDIAETHAU (YN Y LOG CYFANSODDI)

Rhaid rhoi cydnabyddiaeth clir i bob deunydd o ffynhonnell eilaidd, fel dyfyniadau cerddorol neu samplau a gyfansoddwyd ymlaen llaw, a rhaid nodi unrhyw waith nad ydych chi'n llwyr gyfrifol am ei gyflawni. Rhaid rhestru pecynnau meddalwedd ac esbonio sut mae'r rhain wedi cael eu defnyddio. Hefyd, rhaid i unrhyw ddylanwadau cerddorol rydych chi wedi'u defnyddio gael eu cydnabod yn y log cyfansoddi.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## Briffiau gosod

**Rhaid** i chi gyfansoddi darn o gerddoriaeth mewn ymateb i **un** o'r briffiau gosod canlynol.

**1. Ffurfiau a Dyfeisiau**

Cyfansoddwch ddarn o gerddoriaeth ar ffurf ddwyran, sy'n defnyddio trawsgyweiriad i gywair perthynol, i'w berfformio mewn cyngerdd Blwyddyn 11.

**2. Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble**

Cyfansoddwch gân gyda chyfeiliant, i'w chynnwys mewn sioe gerdd newydd am berthnasoedd pobl ifanc yn eu harddegau *(teenage relationships)*. Dewiswch eiriau addas neu ysgrifennwch eich geiriau eich hun. Cewch eich cynghori i beidio â dewis geiriau o gân adnabyddus gan y gallai hyn arwain at ymateb rhagweladwy.

**3. Cerddoriaeth Ffilm**

Cyfansoddwch gerddoriaeth ar gyfer yr olygfa agoriadol mewn ailgread *(re-make)* o ffilm *'Western'* glasurol.

**4. Cerddoriaeth Boblogaidd**

Cyfansoddwch gân bop ar gyfer gig lleol sydd wedi'i drefnu gan *Live Nation*. Dewiswch eiriau addas neu ysgrifennwch eich geiriau eich hun. Cewch eich cynghori i beidio â dewis geiriau o gân adnabyddus gan y gallai hyn arwain at ymateb rhagweladwy.

## Tystiolaeth o'r gwaith cyfansoddi

Bydd angen i chi ddarparu'r dystiolaeth ganlynol pan fyddwch chi'n cyflwyno eich cyfansoddiad i'w asesu.

1. Recordiad sain MP3 o'r cyfansoddiad.
2. Sgôr **neu** ddalen ganllaw *(lead sheet)* ynghyd â disgrifiad ysgrifenedig manwl o'r gerddoriaeth ac amlinelliad o'r alaw a'r cordiau rydych chi wedi'u defnyddio.
3. Log cyfansoddi wedi'i lofnodi sy'n amlinellu'r broses ddatblygu a chydnabyddiaethau. Defnyddiwch y templed sydd ar gael ar wefan CBAC.
4. Gwerthusiad o'r darn rydych chi wedi'i gyfansoddi mewn ymateb i'r briff a ddewiswyd.